**Polisi a Chanllawiau o ran y Ddeddf Hawlfreintiau, Dyluniadau a Phatentau**

## 1. Pwrpas

1.1. Mae'r polisi hwn yn diffinio gofynion Cyngor Sir Caerfyrddin i sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Hawlfreintiau, Dyluniadau a Phatentau 1988

## 2. Cwmpas

2.1. Mae'r Polisi yn berthnasol i bob un sy'n defnyddio asedau gwybodaeth, gan gynnwys gweithwyr ac Aelodau Etholedig yr Awdurdod, gweithwyr asiantaethau cyflogaeth dros dro, gwerthwyr, partneriaid busnes a staff contractwyr, ni waeth ym mhle y maent.

## 3. Polisi

3.1. Bydd cyfleusterau TG Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael eu defnyddio'n unol â'r canlynol:-

3.1.1. Y polisi hwn a'r canllawiau cysylltiedig.

3.1.2. Deddf Hawlfreintiau, Dyluniadau a Phatentau.

3.2. Bydd y defnydd o'r System Ffeiliau yn cael ei fonitro i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y polisi

3.3. Cafodd y polisi hwn ei gymeradwyo gan y Prif Weithredwr ac mae'n cael ei gefnogi'n llwyr ganddo.

3.4. Bydd yr holl weithwyr parhaol, contractwyr a staff dros dro yn llofnodi'r polisi ar ffurf electronig i ddangos eu bod yn cytuno i gydymffurfio â'r polisi.

3.5. Bydd pob rheolwr yn gyfrifol am roi'r polisi ar waith o fewn eu meysydd cyfrifoldeb.

3.6. Bydd yn rhaid rhoi'r polisi hwn ar waith yn gyson heb ystyried hil, lliw, cenedl, tarddiad ethnig neu genedlaethol, iaith, anabledd, crefydd, oedran, rhyw, trosglwyddiad rhyw, tueddfryd rhywiol, statws priodasol na chyfrifoldebau magu plant.

## 4. Gofynion

3.7. Mae'n ofynnol i'r holl ddefnyddwyr sicrhau nad oes dim meddalwedd arall heblaw meddalwedd a drwyddedir gan Gyngor Sir Caerfyrddin yn cael ei osod ar galedwedd sy'n eiddo i'r Awdurdod.

3.8. Ni ellir gosod dim meddalwedd a drwyddedir gan yr Awdurdod ar offer nad yw'n eiddo i'r Awdurdod.

3.9. Mae'n ofynnol i'r holl ddefnyddwyr sicrhau na throseddir yn erbyn hawliau unrhyw berson neu gwmni a ddiogelir gan hawlfraint, cyfrinach fasnach, patent neu eiddo deallusol arall, neu ddeddfau neu reoliadau cyffelyb, gan gynnwys ond heb fod yn

gyfyngedig i osod neu ddosbarthu cynnyrch meddalwedd dynwaredol neu gynnyrch meddalwedd arall, sydd heb gael eu trwyddedu'n briodol i'w defnyddio gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

3.10. Mae copïo deunydd hawlfraint heb ganiatâd gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ddigideiddio a dosbarthu ffotograffau o gylchgronau, llyfrau neu ffynonellau hawlfraint eraill, cerddoriaeth hawlfraint, a gosod unrhyw feddalwedd hawlfraint nad oes gan Cyngor Sir Caerfyrddin na'r defnyddiwr olaf drwydded weithredol ar ei gyfer, yn gwbl waharddedig.

## 5. Mesur Cydymffurfiaeth

5.1. Mae cydymffurfio â'r Polisi hwn yn orfodol. Os na fydd staff yn cydymffurfio ag ef gellir cymryd camau disgyblu yn eu herbyn. Gellir hysbysu'r Pwyllgor Safonau am Aelodau Etholedig nad ydynt yn cydymffurfio â'r polisi hwn.

## 6. Noddwr

6.1. Eiddo'r Prif Weithredwr yw'r polisi hwn

## 7. Gwarchodwr

7.1. Cyfrifoldeb y Swyddog Diogeledd TG yw sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd.

Mabwysiadwyd y Polisi gan yr Awdurdod ar 30ain Tachwedd 2007
Adolygu'r Polisi …………….. Mai 2009
Ysgrifennwyd y Polisi gan………………Idris Evans

Os ydych am gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall, cysylltwch â'r Swyddog Diogeledd TG drwy ffonio 01267 246326

If you require this publication in an alternative format please contact the IT Security Officer on 01267 246326